Skills for Learning Professionals

Dysgu Gydol Oes yn y DU
Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ymateb i *WAVE – Cymru: Economi yn Ffynnu*
Fframwaith Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Datblygiad Economaidd

2 March 2009

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

David Hunter
Prif Weithredwr
Dysgu Gydol Oes yn y DU
E-bost: davidhunter@lifelonglearninguk.org
Ffôn: 020 7936 5703

Michelle Sayers
Rheolwr Cenedlaethol Cymru
Dysgu Gydol Oes yn y DU
E-bost: michellesayers@lifelonglearninguk.org
Ffôn: 07921 291339

1 Dysgu Gydol Oes yn y DU

1.1 Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) yw'r Cyngor Sgiliau Sector annibynnol a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynrychioli'r Sector Dysgu Gydol Oes. Ein prif nodau yw:

- lleihau bylchau a phrinderau sgiliau
- gwella cynhyrchedd, perfformiad busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchedd pawb yng ngweithlu'r sector
- gwella'r cyflenwad dysgu

1.2 Rydym yn cynnwys y cyflogwyr hynny y mae eu busnes pennaf yn ymdrin â chyflwyno neu gefnogi dysgu i oedolion a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol (ar ôl 16 oed). Mae'r rhain yn cynnwys cyflogwyr ym meysydd:

- addysg bellach;
- addysg uwch;
- llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth;
- dysgu a datblygu cymunedol (gan gynnwys dysgu i oedolion, gwasanaethau ieuenctid, addysg deuluol ac addysg magu plant);
- Dysgu Seiliedig Ar Waith a darparwyr hyfforddiant preifat.

1.3 Rydym yn gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith cymwysterau bwaol ar sail safonau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr yn ein sectorau a'u gweithwyr ar draws pedair gwlad y DU. Mae'r safonau hyn yn cael eu defnyddio i lywio recriwtio a datblygiad proffesiynol staff ein cyflogwyr.

1.4 Yn ogystal mae gennym rolau allweddol mewn sicrhau a dehongli gwybodaeth gywir ac awdurdodol am y farchnad lafur ar gyfer ein cyflogwyr a gwella'r deialog rhwng ein cyflogwyr a'r bobl sy'n edrych tuag at y sector dysgu gydol oes i ddiwallu eu hanghenion sgiliau eu hun.

1.5 Rydym yn un o'r prif randdeiliaid yn yr agenda datblygiad economaidd i Gymru.

2. Crynodeb o'r Ymateb

Mae LLUK yn croesawu'r cysylltiadau pendant a rheolaidd sydd wedi eu gwneud rhwng cynhyrchedd a sgiliau yn y Strategaeth Datblygiad Economaidd hon.

Mae ar economi sgiliau uchel angen uniongyrchol am diwtoriaid, hyfforddwyr ac athrawon medrus, sydd nid yn unig yn arbenigwyr technegol yn eu pwnc ond yn ogystal yn meddu ar y sgiliau cyfathrebu datblygedig i ganiatáu iddynt rannu eu gwybodaeth yn effeithiol ac mewn modd sy'n gadael i eraill ei defnyddio'n ymarferol wedyn.

Bydd pob sector arall o'r economi yn edrych i gyfeiriad staff o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes i'w helpu i gynyddu eu sylfeini sgiliau eu hun.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod y Sector Dysgu a Sgiliau Ôl-16 yn gynyddol bwysig i'r agenda cynhyrchedd a sgiliau.

3. Manylion

3.1 <u>Sectorau sy'n Cael Blaenoriaeth</u>

Mae LLUK yn deall yr angen i roi blaenoriaeth i rai sectorau twf mawr.

Er mwyn datblygu'r sgiliau priodol i'r sectorau hyn dyfu, bydd yn ofynnol i'r Sector Dysgu Gydol Oes fachu dawn ansawdd uchel o fyd busnes i'r amgylchedd dysgu i sicrhau bod y cwricwlwm, cynnwys cyrsiau, astudiaethau achos a deunyddiau dysgu eraill yn gyfredol, yn berthnasol ac o ansawdd briodol.

Lle bo sectorau wedi cael blaenoriaeth i dyfu, mae LLUK yn rhagweld y gallai nifer gynyddol o opsiynau cyflogaeth ansawdd uchel a thâl uchel o fewn y sectorau hynny filwrio yn erbyn sefydliadau dysgu yn denu'r dalent angenrheidiol o'r sectorau hyn, yn arbennig gan fod cyflogau nodweddiadol mewn sectorau gwerth uchel/twf uchel yn tueddu i fod yn uwch na'r enillion ariannol sy'n cael eu cynnig gan Gyflogwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes.

Byddem yn awgrymu bod y Strategaethau Sector unigol yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth iddynt gael eu datblygu a bod ystyriaeth (a chefnogaeth briodol) yn cael eu rhoi i sut y gall cyfalaf deallusol ar sail sectorau fod gael eu trosglwyddo'n effeithiol i'r rhai sy'n dylunio ac yn cyflwyno'r dysgu. Gallai enghreifftiau o gefnogaeth gynnwys:

- Ymgyrchoedd Hyrwyddo i hyrwyddo rolau tiwtoriaid o fewn y sectorau targed[1];
- Cymhellion Ariannol i gefnogi secondiadau (busnes i'r amgylchedd dysgu),
- Profiad gwaith (tiwtoriaid i fusnes),
- Mynediad i unrhyw waith ymchwil a ariannwyd yn gyhoeddus sy'n arwain at fwy o wybodaeth am y sectorau /strategaethau sector yn cael ei rhannu â'r Gymuned Dysgu Gydol Oes ehangach – efallai drwy gyfrwng LLUK neu Rwydwaith ehangach Sgiliau ar gyfer Busnes yng Nghymru.

Mae LLUK yn awyddus i ddod yn aelod o unrhyw fforwm sector sy'n cael ei ddatblygu i rychwantu ei ôl troed.

3.2 <u>Gwella Ansawdd Sgiliau Athrawon, Tiwtoriaid a Hyfforddwyr Ôl-16 o fewn Cymru i gyflwyno'r agenda sgiliau.</u>

Mae *WAVE* wei nodi'n glir y cysylltiad rhwng sgiliau a chynhyrchedd. Wrth i gyflogaeth gynyddu, a'r oedran cyfartalog godi, gan arwain at fwy o ddysgwyr ôl-16 – bydd pob sector yn yr economi yn chwilio am gymorth gan gyflogwyr o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes (i ddarparu cymorth dysgu a sgiliau perthnasol o ansawdd uchel). Bydd y galw am ddarpariaeth ddysgu o ansawdd a maint yn yr amgylchedd ôl-16 yn mynnu cyfeiriad oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel bolisi strategol mewn ymgynghoriad â LLUK a'r sector. Bydd angen i hyn ymgorffori fframweithiau cymhwyster, safonau, DPP, Statws Athro Cymwys, a sicrhau rheoli ansawdd ac ardystiad sefydliadau sy'n cyflwyno rhaglenni Hyfforddiant Athrawon a darparu'r adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflwyno'r agenda newid hon.

Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (Adolygiad Furlong) wedi cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad gyfres o argymhellion adolygu allweddol ar gyfer Hyfforddiant Athrawon mewn Ysgolion. Gan fod llawer o'r model presennol ar gyfer darpariaeth Hyfforddiant Athrawon ôl-16 wedi ei seilio ar fodel Lloegr

[1] Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (i Ysgolion) yng Nghymru (Adolygiad Furlong) wedi amlygu bod £1m o gyllideb y Cynulliad yn cael ei wario ar hy o bryd ar hybu rôl athro ysgol fel dewis gyrfa. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at orgyflenwad sylweddol o athrawon sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer yr amgylchedd Ysgol ac yn argymell y gallai'r arian hwn gael ei wario'n well mewn mannau eraill. Mae LLUK yn awgrymu, yn erbyn y cefndir hwn, poblogaeth sy'n heneiddio a'r angen tebygol am sectorau blaenoriaeth o ran dysgu a sgiliau yn y gweithle, ailddyrannu rhan o'r gyllideb hon tuag at hyrwyddo rolau athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn yr amgylchedd ôl-16.

cyn datganoli sydd erbyn hyn wrthi'n cael ei newid, mae LLUK yn argymell bod angen i Lywodraeth y Cynulliad gynnal adolygiad brys o'u strategaeth ar gyfer darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i Gymru yn yr amgylchedd ôl-16, er mwyn deall pa synergedd ac arbedion graddfa allai gael eu cyflawni ar draws yr agendâu cyn-16 ac ôl-16.

3.3 Buddsoddi i adfywio cymunedau

Gwelir y diffiniad o feysydd Dysgu a Datblygu Cymunedol LLUK yn Atodiad A.

Mae LLUK yn cefnogi'n llawn y cysylltiadau sydd wedi eu gwneud rhwng Dysgu a Datblygu Cymunedol, Adfywio Cymunedol, Adfywio Economaidd a Datblygiad Cynaliadwy ar raddfa ehangach.

Gan ddefnyddio'r gyfatebiaeth 'rowch bysgodyn i ddyn a bydd yn bwyta am wythnos, ond dysgwch ddyn i bysgota a bydd yn bwyta drwy gydol ei fywyd', hoffai LLUK ailadrodd ei gred bod angen rhoi'r offer mae eu hangen ar gymunedau i gynnal eu datblygiad eu hun y tu hwnt i oed unrhyw fenter neu brosiect penodol. Yn rhannol, bydd hyn yn dibynnu ar gael eu cefnogi gan hwyluswyr hynod sgiliedig nad ydynt yn dod yn asiantau'r gymuned leol i gyflwyno prosiectau lleol, ond yn hwyluswyr sy'n gallu cyflwyno dysgu cymunedol mewn ffordd sy'n grymuso'r gymuned i gymryd perchenogaeth materion eu hun. Mae hyn yn gofyn am lefel uchel o sgiliau ar ran hyfforddwyr/tiwtoriaid/hwyluswyr.

Mae darparwyr dysgu sy'n gweithio yn y maes hwn yn rhai bach yn aml, gan ddefnyddio llawer o weithwyr rhan-amser a gwirfoddol ac yn aml mae ganddynt drosiant staff uchel, sy'n effeithio ar allu cyffredinol, amseroldeb cyflwyno ac yn ychwanegu at gostau hyfforddiant y busnesau eu hun.

Mae ystyriaethau lu ac amrywiol tu ôl i hyn, ond byddai LLUK yn croesawu mwy o gefnogaeth ganolog i adeiladu cynhwysedd (nifer) a gallu (sgiliau) y grŵp hwn o asiantau cyflwyno arbennig o bwysig – er mwyn sicrhau bod yr agendâu polisi a bennir yn *Cymru a Gwlad Well* a *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn cael eu cefnogi'n llawn ac yn amserol, ar lefel eu gweithredu.

Ein gobaith fyddai i ddatblygiad y cynigion ar gyfer cronfeydd strwythurol ymgorffori sylw penodol i anghenion yr etholaeth hon.

3.4 Cronfeydd Strwythurol:

Mae LLUK yn croesawu ffocws Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol ar wella lefelau sgiliau a bydd yn awyddus i gymryd rhan lawn mewn prosiectau strategol gyda'r potensial am fuddion cynaliadwy i fusnesau yng Nghymru o 2007 ymlaen. Mae hyn yn nhermau ymdrin â segurwch economaidd, a darparu'r sgiliau mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth â gwerth ychwanegol uwch. Byddai LLUK yn annog rhoi sylw priodol i adeiladu gallu a chynhwysedd y Gweithwyr Dysgu proffesiynol mae eu hangen i gyflwyno'r agenda dysgu a sgiliau agenda - fel uchod.

4. Casgliad:

Fel Dysgu Gydol Oes yn y DU rydym ar hyn o bryd yn cychwyn proses ein Cytundeb Sgiliau Sector a fydd, yn gryno, yn nodi anghenion sgiliau allweddol ein holl gyflogwyr yn gyfredol ac wrth edrych tua'r dyfodol. Yng Nghymru bydd yn bwysig i ni ymgysylltu â'n cyflogwyr i gynorthwyo wrth lywio polisïau'r dyfodol sy'n siapio'r cyllid ar gyfer datblygiad economaidd, cymdeithasol a sgiliau. Bydd hyn o gymorth i Gymru wrth sicrhau'r athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr a'r arbenigwyr llyfrgell, archifdai a gwybodaeth – heb sôn am

weithwyr ieuenctid, datblygiad cymunedol a gweithwyr proffesiynol addysg deuluol – mae arni eu hangen i fodloni'r heriau a nodir yn WAVE.

I grynhoi, mae ein hargymhellion yn cynnwys:

1. Mae angen i Strategaethau Sector gymryd i ystyriaeth, a gweithio mewn partneriaeth i ddatrys, unrhyw faterion adeiladu gallu sydd gan Sefydliadau Dysgu o ganlyniad i ystyriaethau sgiliau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
2. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad gynnal Adolygiad brys o'i strategaeth ar gyfer Darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i Gymru yn yr amgylchedd ôl-16 i sicrhau ansawdd cyflwyno dysgu ar ran pob sector.
3. Mae anghenion cynhwysedd a gallu'r Gweithlu Dysgu a Datblygu Cymunedol yn cael eu cefnogi'n llawn.
4. Mae'r cynigion dros fanyleb Cronfeydd Strwythurol yn ystyried anghenion yr asiantau cyflwyno yn ogystal â'r problemau bylchau sgiliau canlynol maent yn ceisio ymdrin â nhw.

Elfennau Dysgu a Datblygu Cymunedol	***Diffiniad***
Dysgu oedolion yn y gymuned	*Yn cynnwys oedolion ifanc drwodd i bobl hŷn ac yn manteisio ar amrediad o gyd-destunau o ganolfannau cymunedol gyda phwyslais pennaf ar ddysgu oedolion, sefyllfaoedd gwasanaeth cymdeithasol, prosiectau adfywio a'r gweithle. Mae'n chwarae rôl fawr mewn adeiladu cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi adfywiad sifil.*
Gwaith Datblygu Cymunedol	*Yn rhagdybio bod, o fewn unrhyw gymuned, cyfoeth o wybodaeth a phrofiad sydd, o'i ddefnyddio'n greadigol, yn arwain at lefelau uchel o gyfranogiad ac yn gallu cael ei sianelu i mewn i weithredu ar y cyd i gyflawni'r nodau mae'r gymuned eu heisiau.*
Addysg Gymunedol	*Yn ymgorffori'r ystod o anghenion dysgu gydol oes gydag ymagwedd gyffredin rhwng gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, a darparu cymorth addysgol gyda datblygiad cymunedol.*
Addysg Ddatblygu	*Gall hon gael ei diffinio fel dysgu gydol oes sydd:* ▪ *Yn archwilio'r cysylltiadau rhwng economïau datblygedig a rhai wedi eu tan-ddatblygu* ▪ *Yn cynyddu dealltwriaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n siapio ein bywydau.* ▪ *Yn datblygu'r sgiliau, agweddau a gwerthoedd sy'n gadael i bobl weithio gyda'i gilydd i gymryd camau i greu newid a chymryd rheolaeth dros eu bywyd eu hun* ▪ *Yn gweithio tuag at gyflawni byd mwy teg a chynaliadwy lle mae grym ac adnoddau'n cael eu rhannu'n decach*
Gweithio Gyda Rhieni	*Mae addysg a chefnogaeth i fagu plant yn cwmpasu ystod amrywiol o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau cynnal. Mae'n galluogi i rieni, darpar bartneriaid a'r sawl sy'n cyflawni rôl rhiant wella eu dealltwriaeth o'u hanghenion personol, cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol eu hun a rhai eu plant a'r cyd-destun y mae bywyd teuluol yn digwydd ynddo.*
Gwaith Ieuenctid	*Yn cynnig i bobl ifanc raglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynlluniedig a digymell fel ei gilydd.*